

EGLWYSI A LLYWODRAETH YN YMATEB I ARGYFWNG Y DIWYDIANT DUR



Ar 18fed Ionawr fe gyhoeddwyd colli 750 o swyddi yng nghwmni dur Tata yn Aberafan. Mae'r gweithfeydd dur ar hyn o bryd yn cyflogi rhyw 4,000 o bobl, gyda llawer yn rhagor mewn gwaith dibynnol neu gysylltiedig. Mae'r nifer hwn lawer yn llai nag yn y gorffennol, pan oedd rhyw 17,000 yn gweithio yno, ond mae o hyd yn ergyd galed i dref Port Talbot a'r cymunedau oddi amgylch. Er i Tata ddweud eu bod yn gobeithio y bydd colli'r swyddi hyn yn sicrhau dyfodol y gwaith, ni ellir gwarantu hynny. Mae'n ymddangos fod dyfodol y

gweithfeydd dur a'r diwydiant dur cyfan yn Ne Cymru yn anisr iawn.

Meddai Chris Gray (Arolygydd Cylchdaith Methodistiaidd Castell Nedd Port Talbot), "Fe fydd staff Cylchdaith Castell Nedd Port Talbot, mewn ymgyngoriad â'r Parch. Rick Hayes, caplan rhan-amser gweithfeydd dur Aberafan, nawr yn rhan o dîm o bobl fydd yn fodlon gwrandao ar y sawl sydd angen siarad â rhywun am eu sefyllfa. Hyd yma, nid oes unrhyw weithwyr wedi clywed iddyn nhw gael eu dewis i golli'u swyddi, ond pan ddaw'r amser hwnnw fe fydd yr angen am glustiau i wrando, cefnogaeth a chymorth i'r sawl y mae eu dyfodol bellach mor ansicr."

Dywedodd y Canon Nigel Cahill, Rheithor Aberafan, fod pobl ledled y bwrdeisdref sirol yn ofni y byddai rhagor o swyddi yn cael eu colli. Dywedodd, "Mae'n drychinebus i'r gymuned golli cymaint o swyddi gan gyflogwr mawr yn yr ardal. Mae yna bryder mawr am yr effaith ar gontractwyr Tata yn yr ardal, a mae pobl hefyd yn poeni y cyhoeddir colli rhagor o swyddi yn y dyfodol. Mae ein heglwysi ni yno i gefnogi a helpu pawb sydd wedi eu heffeithio, naill ai trwy weddi neu drwy ddulliau ymarferol megis cyngor am ddyled."

Dywedodd Esgob Cynorthwyol Llandaf yr Eglwys yng Nghymru, David Wilbourne, "Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i wneud pob dim y gall i sicrhau dyfodol y diwydiant dur a hefyd gweithredu i gefnogi'r gweithwyr hynny fydd yn colli eu swyddi." Mewn ymateb i alwadau o'r fath, fe ofynnodd [Prif Weinidog Cymru i'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#) i gadeirio tasglu lefel uchel i gefnogi gweithwyr a effeithiwyd gan gyhoeddiad Tata, a gyfarfu am y tro cyntaf ar 20fed Ionawr ac eto ar 1af Chwefror. Gwnaed datganiad i'r Cynulliad gan y Gweinidog ar 2il Chwefror.

Mae gwaith y tasglu yn anodd oherwydd y gyd-berthynas gymhleth rhwng polisïau Cymreig, Prydeinig ac Ewropeaidd. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ardrethi busnes, ond fe gyfyngir ar ei gallu i'w newid gan reolau Ewropeaidd am gymorth gwladol. Mae cwmnïau Cymreig yn derbyn 55% o wariant caffael Cymreig o dan [bolisi Llywodraeth Cymru](#), ond gan Lywodraeth y DU yr ariennir llawer o brosiectau mawr sy'n defnyddio dur yn helaeth.

Gellir canfod manylion pellach am y materion hyn mewn blog cynhwysfawr gan [Gareth Thomas o Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol](#).

ETHOLIADAU 2016

Mae Cytûn wedi lansio tudalen benodol - www.cytun.org.uk/etholiadau2016 - lle ceir canllaw cwta i'r etholiadau a chanllaw i drefnu cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr. Cyn bo hir fe ychwanegir papurau briffio ar feysydd polisi allweddol, a dau fideo o hanesion gwir o Gymru ac ymatebion gan wleidyddion blaenllaw.

Rydym yn annog grwpiau Cytûn lleol, mewn partneriaeth gydag eglwysi a grwpiau ffydd eraill lle bo'n briodol, i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr yn eu hetholaethau. Byddem am annog un neu ddau gyfarfod o'r fath, wedi eu trefnu'n dda, ymhob etholaeth, yn hytrach na dyblygu ymdrech.

Mae Cytûn wedi trefnu, mewn partneriaeth â Citizens Cymru a Threfnu Cymunedol Cymru, gyfleoedd i bawb sydd â diddordeb mewn trefnu neu gadeirio cyfarfod o'r fath gwrdd am ryw ddwy awr i rannu profiad, deall mwy am y drefn etholiadol a'r cefndir cyfreithiol, a thrafod y cyfleoedd ac anawsterau ynghlwm wrth gyfarfod o'r math yma. Fe fydd mewnbyn gan dîm cyfathrebu'r Cynulliad ymhob cyfarfod. Bydd croeso hefyd i drefnyddion a chadeiryddion profiadol o'r gorffennol ddod i rannu profiad, hyd yn oed oes nad ydych yn bwriadu gwneud hyn eleni; a hefyd i bobl hoffai ymgymryd â'r gwaith yn y dyfodol, er efallai nad ydych am gwneud eleni. Dyma fanylion y cyfarfodydd hyn:

- Iau 11eg Chwef – Penuel, Capel y Bedyddwyr, Lôn Cariadon (Love Lane), Bangor LL57 2TE, 7yh (gyda TCC)
- Gwe 12fed Chwef - Canolfan Cyfiawnder a Heddwch, 37 Kingsmills Road, Wreccsam LL13 8NH, 7yh (gyda TCC)
- Llun 22ain Chwef – Eglwys St German, Star Street, Y Rhath, Caerdydd CF24 1LA, 7yh (gyda Citizens)
- Mawrth 23ain Chwef – Bethel United Reformed Church, Sketty Green, Sgeti, Abertawe SA2 9AS, **7.30yh** (gyda Citizens)
- Mercher 2il Mawrth – Eglwys Gymunedol Bethel, 40 Stow Hill, Casnewydd NP20 1JG, 7yh (gyda Citizens)

Fe fyddai'n ddefnyddiol cael gwybod pwy sy'n dod (e-bostiwrch gethin@cytun.org.uk), ond nid oes raid bwcio er mwyn dod.



COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL YN CYCHWYN AR EI GWAITH

Fe ddechreuodd Sophie Howe ar ei gwaith yn swydd newydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 1af Chwefror. Fe fydd yn gyfrifol am gadw golwg ar, a herio, sut y mae cyrff cyhoeddus Cymru yn gweithredu eu dyletswyddau llesiant newydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 pan ddônt i rym ar 1af Ebrill, ac ar waith y Byrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus ledled Cymru. Meddai Ms Howe, a ddaw i'r gwaith o fod yn Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, "I mi, mae'n gyfle neilltuol o gyffrous, ac ychydig yn frawychus. I Gymru, ac i'r bobl a'r sefydliadau a ymgyrchodd dros ddeddfwriaeth, mae'n gam arall tuag at greu cenedl gynaliadwy. Dyma Gymru lle rydym yn rhannu'r awydd i wireddu gwell ansawdd bywyd parhaol i ni i gyd - y Gymru a garem. Mae'n Gymru lle byddwn yn gweithio mewn dull cwbl wahanol fel y gallwn i gyd gwneud gwell penderfyniadau, trawsnewid gwasanaethau, mynd i'r afael â phroblemau dwfn a defnyddio arian cyhoeddus, sy'n prinhaus, mor effeithiol â phosibl." Mae Cytûn wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod ymgynghori cychwynnol gyda'r Comisiynydd y mis hwn.

Manylion cyswllt dros dro y Comisiynydd yw Adeilad Haydn Ellis, Heol Maindy, Cathays, Caerdydd, CF24 4HQ. E-bost cysylltwchâni@cenedlaethaurdyfodol.cymru.

CYFLWR ADDYSG YNG NGHYMRU



Fe gyhoeddodd Estyn, swyddfa Prif Arolygydd addysg Cymru, ei [adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn ysgol 2014-15](#). Yn ôl yr arfer mae'n cynnig darlun cynhwysfawr o gyflwr y byd addysg yng Nghymru.

Gyda bod y [cwricwlwm cyfan ar gyfer ysgolion hyn o bryd yn cael ei adolygu](#) yn dilyn Adroddiad Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*,

mae'n ddiddorol nodi sylwadau'r arolygydd am y cwricwlwm presennol:

Lle ceir diffyg hyder ymhlith arweinwyr ac athrawon yn eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu a gofynion y cwricwlwm, meant yn amharod i ddehongli'r cwricwlwm yn feiddgar ac yn hyblyg. ... Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhai arweinwyr, yn gamsyniol, yn meddwl mai dim ond dull ffurfiol o ddysgu fydd yn sicrhau bod plant yn perfformio'n dda mewn profion cenedlaethol ym Mlwyddyn 2. (t. 30). Fe fydd y cwricwlwm newydd lawer yn llai caeth ei gynnwys, ac felly yn rhoi mwy eto o bwysau ar athrawon i fod "yn feiddgar ac yn hyblyg".

O ran perfformiad cyfredol, fe welwyd cynnydd yn nifer yr ysgolion cynradd y bu raid tynnu sylw at ddiffygion ynddynt a chynnig cymorth ychwanegol. *Yn aml, mae'r arweinwyr hyn yn methu mynd i'r afael â diffygion yn ansawdd yr addysgu, y cynllunio a'r asesu. Nid ydynt yn dwyn athrawon i gyfrif am gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion. (t. 39). O ran ysgolion uwchradd, roedd cymaint â 38% o ysgolion yn peri pryder – er bod gan yr un nifer arfer ragorol. Mater o bryder, felly, yw darllen *Mae lleiafrif o ysgolion yn darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff. (t. 55).**

Yn Ionawr 2015, roedd 4,000 yn fwy o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd na'r flwyddyn flaenorol – ond 4,000 yn llai mewn ysgolion uwchradd. Mae hynny yn codi cwestiynau diddorol am bolisiau rhai awdurdodau lleol o ran ad-drefnu ysgolion.

Mae awdurdodau addysg lleol eu hunain hefyd yn peri pryder. *Erbyn Gorffennaf 2015, roedd pedwar awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen) yn y categori mesurau arbennig o hyd ac roedd un awdurdod (Caerdydd) yn y categori angen gwelliant sylweddol o hyd. ... Ni wnaeth yr awdurdodau weithredu'n ddigon cyflym i fynd i'r afael â diffygion yn yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, neu o ran creu diwylliant a fyddai'n eu helpu i wella. (t. 89).*

Mwy pryderus fyth yw i Estyn ganfod fod safon yr hyfforddiant cychwynnol a gynigir ar gyfer athrawon yng Nghanolfan Addysg Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru (Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth) yn anfoddfaol. Fe welwyd gwelliant yng Nghanolfannau De Orllewin a De Ddwyrain Cymru.

Serch y pryderon hyn, fe welwyd gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau dosbarth disgyblion ar bob lefel, a gostyngiad yn nifer y disgyblion a waharddwyd o ysgolion uwchradd – er bod yna gynnydd arwyddocaol yn y niferoedd a waharddwyd o ysgolion cynradd.

Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y categorïau cefnogaeth i bob ysgol unigol yng Nghymru, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall, ar wefan [Fy Ysgol Leol](#).

CYMRU'N COFIO'R RHYFEL BYD CYNTAF

Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones wedi lansio *Rhaglen 2016* i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. *Rhaglen 2016* yw'r llyfryn blynyddol diweddaraf yng nghyfres Llywodraeth Cymru *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918. Mae'n rhoi hysbysrwydd i ddigwyddiadau a phrosiectau â chyswllt Cymreig sy'n cael eu cynnal yng Nghymru a thu hwnt yn ystod 2016. Gweler copi digidol o *Rhaglen 2016* [yma](#).

Mae'r Rhaglen yn cynnwys gwybodaeth am *Cymru dros Heddwch*, sy'n cofio safiad Cristnogion ac eraill a benderfynodd beidio â rhyfela, ac fe lansir arddangosfa deithiol am y thema yn Eisteddfod yr Urdd ym Mai 2016.

Ewch i wefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 (www.cymruncofio.org) a'r cyfryngau cymdeithasol cysylltiedig (Twitter: [@cymruncofio](#) a Facebook: [Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918](#)) i gael rhagor o wybodaeth am y digwyddiadau a'r prosiectau a gynhelir i gofio Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru.


CYFREITHIAU NEWYDD I GYMRU

Ar 18fed Ionawr 2016, derbyniwyd Cydsyniad Brenhinol i ddwy Ddeddf Gymreig newydd.

Bydd [Deddf Rhentu Tai \(Cymru\) 2016](#) yn diwygio sail gyfreithiol rhenti cartref gan landlord preifat neu landlord cymunedol, gan gynnwys awdurdodau lleol a landlordiaid cofrestredig. Mae'n cyflwyno patrwm cwbl newydd o ddaliadaeth cartrefi yng Nghymru, wedi'i seilio ar 'gytundebau sicr' (llety cymdeithasol) a 'chytundebau safonol' (llety preifat).

Mae [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#) yn darparu ar gyfer: diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth; darparu fframwaith rheoleiddio sy'n ei gwneud yn ofynnol cael dull o reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth; diwygio'r gyfundrefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol; ailgyfansoddi Cyngor Gofal Cymru a rhoi enw newydd iddo, sef Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ehangu ei gylch gwaith; a diwygio prosesau rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Fe gafodd y Ddeddf ei chryfhau yn sylweddol gan y Cynulliad, gan gynnwys gwasanaethau eiriol o fewn y Bil, gosod isafswm 30 munud ar gyfer ymweliadau cartref, a gosod prawf "personau addas a phriodol" ar wyneb y Bil. Yn dilyn [Adroddiad Flynn](#), mae Llywodraeth Cymru wedi addo cyflwyno rheoliadau yn gorfodi cofrestru gan staff gofal cartref a chartrefi preswyl.

Ar 2il Chwefror, fe roddodd y Cynulliad ei gydsyniad terfynol i [Fil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#), wedi derbyn cydsyniad Gweinidogion y Goron i Adran 6 fis Rhagfyr. Disgwylir derbyn Cydsyniad Brenhinol ar derfyn y cyfnod rhybudd pedair wythnos.



CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.org.uk [@CytunNew](#)



Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 2il Chwefror 2016.

Cyhoeddir y Bwletin nesaf ar ddiwedd tymor y Cynulliad tua 20fed Mawrth 2016.